# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Iau, 30ain Gorffennaf 2015.**

**Presennol.** Cynghorwyr:- Dafydd Evans, A. O. Griffiths, Siôn Ifans, D.G.Jones, J.P.Jones, D. Lewis, W.N.Owen, G.Wigley, Gwen Lloyd, Ann Williams, Gwenfair Davies a'r Cyng Sir. G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Cynghorwyr:- Paul Hughes, H.D.Jones a Gareth Owen.
Cytunwyd i anfon llythyr o wellhad buan i'r Cynghorydd Hugh Jones.
Llongyfarchwyd Dorian Lloyd, Glandulas gynt, ar ei lwyddiant yn y Sioe Frenhinol ac i Bill Owen am rannu o'i wybodaeth am wenyn a mêl ar y cyfryngau yn ystod y Sioe.

**24. Cofnodion cyfarfod 25ain Mehefin 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**25. Materion yn codi o'r cofnodion.**
Gwilym Fychan yn diolch am y cyfarchion.
Nid oedd y cynghorwyr yn gefnogol i'r cynllun o gael gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r heddlu i geisio gostwng cyflymder y cerbydau drwy bentrefi'r gymuned.
101.1 *Defibrillator.* Wedi cysylltu efo Mrs Glenys Evans, Machynlleth, eglurodd y clerc ei fod wedi gwahodd Mrs Sharon Owen i gyfarfod o'r Cyngor ond heb dderbyn ymateb.
15.4 Derbyniwyd adroddiad gan Mr Bill Owen yn dilyn ymweliad Mr Emlyn Jones i weld rhai mannau sydd angen sylw yn ardal Llanwrin a Cheinws. Diolchwyd i Bill am roi o'i amser.
15.6 Nid problem parcio oedd gan Siôn mewn golwg ond angen i'r Cyngor Sir wella'r palmant ger Fronheulog.
23.2 Derbyniwyd ateb o'r Swyddfa Bost ond roedd cwyn nad oedd y tabledi yn y blychau postio'n cael ei newid yn ddyddiol.

**26. Ethol Clerc.** O ganlyniad i benderfyniad y clerc i ymddeol ar ddiwedd mis Medi, derbyniwyd un cais yn unig am y swydd. Roedd cais Mr Richard Jones yn llwyddiannus. Y cadeirydd, Mrs Gwenfair Davies yr is-gadeirydd Mr Dafydd Evans a'r clerc presennol i gyfweld Richard i drafod y telerau. Disgwylir iddo ddechrau ar y swydd ym mis Hydref.

**27. Cynllunio.**
**P/2015/0616.** Codi swyddfa safle un llawr ar dir Brynuchel. Cefnogi
**P/2015/0664.** Adeiladu pedair ffenestr dormer yn Squire's Roost, Cwmlline.. Dwy yng nghefn y tŷ a dwy yn wynebu'r ffordd. Cefnogi

**28. Eitemau i'w talu.**
Dim cais yn ystod y mis.

**29. Cais am arian.**
Dim cais yn ystod y mis.

**30. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
30.1 Fforwm cleifion ardal Machynlleth. Cafwyd adroddiad fod gobaith i'r byrddau iechyd gydweithio'n well yn y dyfodol.

**31. Gohebiaeth.**

31.1 Roedd yr aelodau wedi derbyn gwybodaeth am ymgynghoriad cyhoeddus yng nghanolfan Glantwymyn ar 15fed Gorffennaf ynglyn â sefydlu fferm solar ym Mathafarn.. Bu 25 o'r cyhoedd yn y ganolfan yn ystod y cyflwyniad. E-bost i'w anfon i'r cwmni iddynt ystyried cyfraniad ariannol i'r gymuned pe bai'r cais cynllunio'n llwyddiannus.
31.2 Cylchlythyr SARPA Rhif 67.
31.3 Bydd y ffordd rhwng Machynlleth a Dylife ar gau rhwng 14eg a'r 18fed o fis Medi i adnewyddu'r wyneb.

**32. Unrhyw fater arall.**

32.1 Siôn yn egluro fod nawdd i'w gael o Lywodraeth Cymru Wledig i gynorthwyo ardaloedd tebyg i Ddyffryn Dyfi. Bydd ganddo fwy o fanylion erbyn y cyfarfod nesaf.
32.2 Coed yn gordyfu o dir Brookville, Cwmlline.
32.3 Rhoi pwysau ar Andrew Jones, Adran Priffyrdd i wneud rhywbeth ar fyrder ger Tynrhos, Cwmlline.
32.4 Disgwylir i ochrau'r ffyrdd gwledig gael eu torri yn y dyfodol agos.
32.5 Cysylltu efo'r Cyngor Sir ynglŷn â'r llwybr o Bwthyn Gwyn i Lanwrin.
32.6 Llythyr i Gyngor Cymuned Corris ynglŷn â'r twll yn y ffordd ger Pont Ifans, Ceinws.
32.7 Cysylltu efo Phill Parry o'r Cyngor Sir ynglŷn â'r gwaith anorffenedig gan Nwy Cymru ar ffordd Glandulas.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24ain Medi 2015.**

Eitem 26 uchod. Yn dilyn cyfweliad efo Mr RAB Jones, mae wedi derbyn y swydd o glerc a bydd yn cychwyn ar y 1af Hydref ar gyflog o £3000 y flwyddyn a chostai..

The Asset Manager for the owners of Cemaes Windfarm addressed the meeting in order to form a closer relationship with the Trustees.
The present clerk will be retiring at the end of September having served 16 years. The successful applicant for the post was Mr RAB Jones, Glantwymyn and he will commence his duties on 1st October 2015.
Two Planning applications were supported.1. Erection of a site office building at Brynuchel Caravan Park, Cwmlline, and 2. Construction of four dormer windows at Squires Roost, Cwmlline.
The highways department has once again been reminded of the dangerous road subsidence opposite Tynrhos, Cwmlline on the A470.
The County Council has been approached to provide a footpath from Llanwrin village to Bwthyn Gwyn to assist walkers on this busy and dangerous stretch of the B4404.